JONES, RICHARD (1603? - 1673), ysgolfeistr a chyfieithydd gweithiau crefyddol

Enw: Richard Jones
Dyddiad geni: 1603?
Dyddiad marw: 1673
Rhiant: John Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr a chyfieithydd gweithiau crefyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

mab John Lewis o Lansannan, sir Ddinbych. Addysgwyd ef yng Ngholeg Balliol, Rhydychen, a graddiodd yn B.A., Chwefror 1628-9, ac M.A., Mehefin 1633. Tan y Weriniaeth daeth yn bregethwr teithiol, ac yn ddiweddarach yn ysgolfeistr Ysgol Rydd Dinbych. Gwyddys iddo gael ei apwyntio i ysgol Dinbych cyn Chwefror 1656-7, o bosibl ychydig cyn hynny. Diswyddwyd ef yn 1660. Bu farw Awst 1673. Y cyntaf o'i gyfieithiadau i'w gyhoeddi oedd *Galwad i'r Annychweledig*, 1659, o *Call to the Unconverted* Richard Baxter. Mewn cyfrol amrywiol a gyhoeddwyd gan Stephen Hughes yn 1672 ymddangosodd ei *Rhodfa Feunyddiol y Christion*, cyfieithiad o *Christian's Daily Walk* Henry Oasland, ac *Amdo i Babyddiaeth*, o *A Winding sheet for Popery* Richard Baxter. Ymddangosodd *Hyfforddiadau Christionogol*, cyfieithiad o *Christian Directions* Thomas Gouge, yn 1675 ar ôl ei farw, ac hefyd *Bellach neu Byth*, cyfieithiad o *Now or Never* Baxter, yn 1677.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

Thomas Shankland, 'Cynnyg i Benderfynu Hen Ddadl Lyfryddol'

T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920) a *Religious Developments in Wales, 1654–1662* (1923)

J. C. Morrice, *Wales in the Seventeenth Century its literature and men of letters and action* (Bangor 1918)

H. Lewis yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1930-1

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944)

Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales from its rise in 1633 to the present time* (London 1883)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 38319884

Wikidata: Q18672103

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu